

RICHARDS, HENRY BRINLEY (1819 - 1885), cerddor

Enw: Henry Brinley Richards
Dyddiad geni: 1819
Dyddiad marw: 1885
Rhiant: Elizabeth Brinley Richards (née Brinley)
Rhiant: Henry Brinley Richards
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: cerddor
Maes gweithgaredd: Eisteddfod; Cerddoriaeth; Perfformio
Awdur: Robert David Griffith

Ganwyd 13 Tachwedd 1819 yn Heol y Farchnad Isaf, Caerfyrddin, mab Henry ac Elizabeth Brinley Richards. Cadwai ei dad siop gerddoriaeth, ac efe oedd organydd eglwys S. Pedr. Yr oedd ei fam yn ferch i John Brinley, Abertawe. (gweler F. Jones, *God Bless the Prince of Wales*, Caerfyrddin, 1969).

Bwiadai ei dad ei ddwyn i fyny'n feddyg, ond at gerddoriaeth yr oedd ei atyniad. Yn eisteddfod Gwent a Morgannwg, 1834, enillodd ar gyfansoddi amrywiadau ar yr alaw Gymreig, 'Llwyn Onn,' gyda chanmoliaeth gan 'Bardd Alaw,' y beirniad. Parodd hyn iddo roddi i fyny y bwriad o fynd yn feddyg, a chyflwynodd ei holl amser i gerddoriaeth. Cafodd y dug Newcastle yn noddwr, ac anfonwyd ef i'r Academi Gerddorol Frenhinol. Yn 1835 enillodd ysgoloriaeth y brenin, ac enillodd hi drachefn yn 1837. Ar anogaeth ei noddwr aeth i Paris am gwrs o addysg, ac ar ei ddychweliad i Lundain penodwyd ef yn is-athro yn yr Academi Gerddorol, ac yn ddiweddarach gwnaed ef yn gyfarwyddwr yr academi. Ef a gychwynnodd yr arholiadau lleol mewn cysylltiad â'r academi, a phenodwyd ef i arolygu y rhai hyn yng Nghymru a Sgotland. Ystyrid ef y chwarae wr piano gorau yn y deyrnas, ac enillodd enwgorwydd fel athro ar y piano.

Cadwodd ei gysylltiad â Chymru, a gwasnaethai fel beirniad yn yr eisteddfod genedlaethol, bu'n flaenllaw yng Nghymdeithas y Cymrodonion o 1873 hyd ei farw. Cymerai ddiddordeb yn y delyn deir-res (gw. [NLW MS 1904B](#)), a thraddododd gyfres o ddarllithiau ar 'Cerddoriaeth Gymreig' Y mae ei gyfansoddiadau yn niferus. Trefnodd gerddoriaeth y meistri i'r piano mewn tair cyfrol, *Classical Pianist, Student Practice, a'r Pianist Library*, ynghyd â darnau gwreiddiol - 'overture' i gerddorfa yn F leiaf' (canwyd hi yn eisteddfod Caerleon, 1860), 'Concerto' i'r piano a'r gerddorfa, darnau corawl ('Cenwch Udgorn yn Seion,' 'Let the hills resound,' ac eraill). Y gwaith a'i dygodi i sylw ydoedd 'Ar Dywysog Gwlad y Bryniau' ('God Bless the Prince of Wales'), 1862; ar ddydd priodas tywysog Cymru yn 1863 canwyd y gân trwy bob rhan o'r wlad gan filoedd o gantorian. Yn 1873 dug allan *Songs of Wales*, wedi eu trefnu i'r llais a'r piano. Cyhoeddodd hefyd *Welsh Choir*, sef alawon Cymreig wedi eu trefnu i bedwar llais.

Bu farw 2 Mai 1885, a chladdwyd ef ym mynwnt Brompton, Llundain.

Awdur

Robert David Griffith, (1877 - 1958)

Ffynonellau

Y Geninen, 1886, 56, 281

Oxford Dictionary of National Biography

The Musical Times, 1885

M. O. Jones, *Bywgraffiaeth Cerddorion Cymreig* (1890)

Groves, *Groves' Dictionary of Music and Musicians* (1940)

Y Cerddor, Ionawr 1893

Y Cymrodon, 1951, pen. vi

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Henry Brinley Richards](#)

Delweddau

Edward Grimstone, H. Brinley Richards

Barraud & Jerrard, Brinley Richards, composer

John Thomas, Brinley Richards (print)

Dolenni Ychwanegol

Archifau LIGC: NLW MS 8284D: 'Ar D'wysog gwlad y bryniau'

Archifau LIGC: NLW MS 8285C: Certificates of Henry Brinley Richards

Archifau LIGC: NLW MS 21592E: Arrangements of music by Brinley Richards

VIAF: 22895417

Wikidata: Q4850963

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwn.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.



Ardull APA




Griffith, R. D., (1953). RICHARDS, HENRY BRINLEY (1819 - 1885), cerddor. Y Bywgraffiadur Cymreig. Adferwyd 12 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-RICH-BRI-1819>

Copiar a'r

Preifatrwydd a Chwcius
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LLGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Noddfa'r
Llyfrgell Cymru
Sponsored by
Welsh Government